

49% % o'r holl weithgareddau yn ystod y chwarter sy'n berthnasol i'r sector laeth

49%

GWEITHGAREDD LLAETH


80%

O FFERMYDD LLAETH CYMRU WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO

Prosiectau Ffermydd Arddangos

Canolbwyntio ar Laeth ar gyfer Cynhyrchu Caws

Mae'r prosiect hwn ar safle ffocws Clawdd Offa wedi bod yn yn edrych ar gyfanswm cynnyrch caws ac amseroedd ffurfio caws meddal o laeth a gynhyrchir gan wartheg gyda gwahanol genotypeipiau. Mae'r genyn Kappa Casein yn dylanwadu ar faint a chynnyrch caws ac mae astudiaethau wedi dangos bod gwartheg gyda'r genyn BB Kappa Casein yn cynhyrchu mwy o gaws. Cafodd y gwartheg eu rhannu'n ôl eu genotypeip: AA, AB neu BB. Cafodd laeth ei wahanu yn ôl y gwahanol grwpiau a'i gludo i'r Ganolfan Technegol Bwyd i'w brofi. Mae gwahaniaethau rhwng laeth y gwartheg gyda genotypeipiau gwahanol yn cael eu harchwilio. Bydd y canfyddiadau hyn yn ceisio cefnogi ffermwyr i ddeall pa farchnad y gallant ei dargedu gyda'u laeth.



Canolbwyntio ar Leihau Llygredd Amaethyddol

Mynychodd ffermwyr lleol o ddalgylch Pulford ddigwyddiad ar safle ffocws Shordley Hall, Wrecsam, i glywed am y rheoliadau SSAFO diweddaraf. Rhoddwyd pwyslais penodol ar ffyrdd o leihau cyfaint dŵr glaw a slyri i leihau pwysau ar gyfleusterau storio.



Canolbwyntio ar Leihau'r Defnydd o Wrthfotigau


Gweithdy Therapi Buchod Sych Dethol (SDCT) ar Safle Ffocws Holebrook Farm, Wrecsam

Bu'r digwyddiad ym mis Rhagfyr yn amlygu'r llwyddiannau a'r gwelliannau a wnaed ar Holebrook Farm ers cyflwyno SDCT fel rhan o'u prosiect safle ffocws. Bu'r gweithdy'n dangos sut i weithredu SDCT yn ymarferol gan ddefnyddio seliwr tethi yn hytrach na gwrthfotigau. Dim ond ers mis Mawrth 2018 mae'r fferm wedi bod yn defnyddio SDCT ac mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud yn ogystal â defnyddio llai o wrthfotigau.



Gweithdy defnyddio gwrthfotigau mewn modd cyfrifol

Cynhaliwyd y gweithdy hwn ym mis Rhagfyr gan Cyswllt Ffermio mewn cydweithrediad â Milfeddygon Wern, a'r nod oedd dod â ffermwyr ynghyd i drafod sut i wneud newidiadau i faint o wrthfotigau a ddefnyddir heb effeithio'n negyddol ar iechyd a lles y fuches.



Roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- defnyddio gwrthfotigau yn y modd cywir
- cadw cofnodion
- storio meddyginiaethau'n gywir
- deddfwriaeth berthnasol

Canolbwyntio ar Briddoedd

Mynychodd grŵp o 15 o ffermwyr weithdy Meistr ar Briddoedd ym mis Hydref lle cawsant y cyfle i ddysgu am bwysigrwydd rheoli priddoedd i wneud y gorau o gynhyrchiant glaswellt. Arweiniwyd y gweithdai gan Charlie Morgan a Chris Duller, ac roeddent yn ymwneud ag ystod eang o faterion sy'n effeithio ar iechyd a ffrwythlondeb pridd. Roedd defnyddio slyri yn ofalus yn bwnc pwysig a bu ffermwyr yn clywed am bwysigrwydd amseru gwasgariad er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau.

Mae gwasgaru 3,500 galwyn/erw o slyri 6%DM ym mis Hydref yn darparu 17kgN/ha sydd werth £12.24/ha ond os bydd y slyri'n cael ei wasgaru ym mis Mawrth, sef y mis pwysicaf ar gyfer gwasgaru slyri, bydd yn darparu 40kgN/ha sydd werth £28.80/ha.




Adolygiad Prosiect Porfa Cymru 2018

Twf Glaswellt yn 2018

Mae 2018 wedi bod yn un o'r tymhorau fwyaf heriol o fewn cof, gyda ffermwyr a da byw yn cael eu gwthio i'r pen o ran rheoli tir glas. Yn dilyn gwanwyn hwyr, oer a gwlyb, cafwyd un o'r hafau sychaf a chynhesaf yng Nghymru, gan arwain at gyfraddau twf isel i'r glaswellt, a'r angen i agor clampiau silwair yn yr haf i gynnal da byw. Cafwyd glaw o'r diwedd ym mis Medi, ond roedd rhai rhanbarthau wedi cael gwell tywydd nac eraill, gyda ffermydd prosiect yn Sir Benfro a Gwynedd yn tyfu rhwng 50-60kgDM/Ha/dydd o'i gymharu â ffermydd yn Sir Ddinbych a Sir Fynwy yn tyfu 20-30kgDM/Ha/dydd.

Ffermydd laeth sy'n cymryd rhan ym Mhrosiect Porfa Cymru Cromlin twf glaswellt 2017/2018



Grwpiau Trafod



36

CYFARFOD GRŴP
TRAFOD LLAETH

gyda



308

O FYNCHWYR

Nifer y Grwpiau Trafod Llaeth: 31

Astudiaeth Achos

Bu Sara Pedersen o gwmni Farm Dynamics yn ymweld â grŵp trafod llaeth yng Ngorllewin Cymru i godi ymwybyddiaeth ymysg aelodau o'r gwahanol ffactorau sy'n arwain at gloffni, triniaeth a dulliau atal er mwyn lleihau nifer yr achosion o gloffni ar eu ffermydd.

Dechreuodd y cyfarfod gyda thrafodaeth wedi'i hwyluso ynglŷn â phrif achosion cloffni a beth allai bob achos ei gostio i'r busnes. Aeth Sara yn ei blaen i egluro bod nifer o ffactorau risg ar fferm sy'n gallu achosi cloffni. Trafodwyd pob achos yn ei dro, ac eglurodd Sara sut mae'r rhain yn arwain at gloffni a'r math o gloffni maen nhw'n ei achosi. Cafwyd eglurhad hefyd o ddulliau atal, a sut y gellid rheoli pob un at y dyfodol.

Yn ystod y cyfarfod hefyd, bu Sara yn pwysleisio pwysigrwydd amseroedd gorwedd, sy'n ffactor cyffredin sy'n arwain at gloffni, a sut mae'n gallu atal cloffni. Eglurodd bod nifer o resymau pam nad yw gwartheg yn cael digon o amser i orwedd ar fferm gan gynnwys:

- Godro am gyfnod rhy hir
- Gor-stocio a phrinder ciwbiclau
- Straen gwres sy'n achosi i'r fuwch sefyll
- Maint ciwbiclau anaddas
- Rheilen y pen wedi'i leoli yn y man anghywir
- Dim digon o wellt

Datblygodd y mynychwyr ddealltwriaeth o'r holl ffactorau sy'n gallu achosi cloffni ar y fferm, strwythur troed y fuwch, protocolau golchi a thrimio traed yn ogystal â dulliau trin. O ganlyniad, dylai'r ffermydd a fu'n bresennol weld llai o achosion o gloffni ar eu ffermydd a fydd yn ei dro yn gwella cynhyrchiant, proffidoldeb, iechyd a lles y gwartheg.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gefnogwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- DEFNYDDIO TECHNOLEG HIDLO TRWY BILEN I LEIHU LLYGREDD AMAETHYDDOL
- RHEOLI SLYRI YN WELL: DEFNYDDIO TECHNOLEG GWAHANU
- PLASTIGAU BIODDIRADDIADWY AT AMAETHYDDIAETH

Tafleni ffeithiau a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth:

- RHEOLITAFOL

Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 27 o Ddigwyddiadau gyda 889 o fynychwyr

Roedd y prif bynciau yn cynnwys:

YMDRIN Â CHLOFFNI MEWN GWARTHEG	GWAREDU JOHNE'S O'CH BUCHES
FFERMIO AR GYFER Y DYFODOL	CADW TB ALLAN O'R FUCHES

*Mae themâu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn croesi sectorau ac yn denu ffermydd o bob sector, gan gynnwys y sector Llaeth.

Mentor

2 DDARPARWR LLAETH NEWYDD 2 GEISIWR LLAETH NEWYDD

8 PÂRYNY SECTOR LLAETH yn cael eu cefnogi ar hyn o bryd drwy'r Gwasanaeth Cynghori
2 Fenter newydd ar y Cyd wedi cael ei sefydlu drwy raglen Mentor

Rhaglen Fentora

41

O FFERMWYR
LLAETH



yn cael yn cael eu
mentora ar hyn o bryd.



Cliciwch yma i weld y Cyfeirlyfr Mentoriaid llawn.

Cyfnewidfa Rheolaeth

Mae 5 ymgeisydd a fu'n llwyddiannus yng Ngham 1 o'r Gyfnewidfa Rheolaeth yn gobeithio ymchwilio i bynciau sy'n ymwneud â'r sector llaeth:

- Perfformiad a phroffidoldeb bîff o'r sector llaeth
- Technegau bridio gwell ymysg geifr llaeth gan gynnwys defnyddio ffrwythloni artiffisial
- Godro robotig yn yr Iseldiroedd
- Godro defaid



Rhys Davies

Lleoliad: Treffynnon

Cyrchfan: Iwerddon

Pwnc: Effaith EBI ar y fuches sy'n lloia yn y gwanwyn yn Iwerddon
Cliciwch yma i ddarllen adroddiad Rhys



Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd 24 achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i unigolion o fewn y sector Llaeth.

GWELLA BUSNES 4 UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT	HYFFORDDIANT TECHNOGOL 12 UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT	DEFNYDDIO PEIRIANNAU AC OFFER 8 UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT
--	--	--

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

- Cynllunio Busnes
 - Effeithlonrwydd Porthiant
 - Cyllid Fferm
 - Paratoi Cyllideb Fwydo ar gyfer y Gaeaf
- Cliciwch yma am restr lawn o'r modiwlau e-ddysgu sydd ar gael.

Rhai o'r uchafbwyntiau ar ein Gwefan a'n safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol yn ddiweddar...

Erthygl dechnegol:

- RHEOLI SLYRI YN WELL: DEFNYDDIO TECHNOLEG GWAHANU

Ymweliadau â'r dudalen: 243

Facebook 18/11/2018

Cyllidebu Porthiant – Hefin Richards

Mae Hefin Richards, arbenigwr maeth gwartheg llaeth a bîff annibynnol yn credu bod angen bod yn hyblyg a bod angen bod yn barod i wneud pethau ychydig yn wahanol wrth borthi da byw dros y gaeaf.

Cliciwch yma i wylu'r fideo.

Cyrhaeddiad: 2,096

